

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	3ydd o Fawrth 2022
Pwnc:	Cais Posibl y Cyngor Sir i Gronfa Codi'r Gwastad Llywodraeth y DU
Deilydd/Deiliaid Portffolio:	Cynghorydd Carwyn Jones
Pennaeth Gwasanaeth/ Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygiad Economaidd
Awdur yr Adroddiad:	Tudur H. Jones
Ffôn:	2146
E-bost:	tudurjones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig

A – Argymhelliad /Argymhellion a Rheswm/ Rhesymau

A1 – Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo parhau gyda'r gwaith paratoi ar gyfer cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad (LUF) sy'n canolbwyntio ar Gaergybi.

A2 – Oherwydd ansicrwydd ynghylch y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau, bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo'r awdurdod i awdurdodi'r cyflwyniad terfynol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd).

1.0 Beth yw'r Gronfa Codi'r Gwastad?

Cronfa Codi'r Gwastad yw mecanwaith ariannu diweddaraf Llywodraeth y DU ac mae'n ffurfio rhan o'u 'agenda codi'r gwastad' ehangach. Mae'r Gronfa'n canolbwyntio ar ymyriadau sy'n cael effaith amlwg ar bobl a'u cymunedau. Roedd y rownd gyntaf o gyllid yn canolbwyntio ar dair thema:

1. Buddsoddi mewn trafniadaeth
2. Buddsoddi mewn adfywio a chanol trefi
3. Buddsoddi diwylliannol

Uchafswm gwerth unrhyw gais y gall y Cyngor Sir ei gyflwyno yw hyd at £20m.

Yna, caiff cynigion eu hasesu yn erbyn y pedwar maen prawf, a'i hystyri'r yn gyfwerth.

1. Nodweddion y lle – lefel blaenoriaeth yr Awdurdod Lleol (felly Blaenoriaeth 2 i CSYM)
2. Cyweddu'n strategol â blaenoriaethau lleol a'r Gronfa Codi'r Gwastad
3. Gwerth am arian – Cymhareb Budd/Cost
4. Cyflawnadwyedd – Cyllid, rheolaeth ac achosion masnachol, a monitro a gwerthuso

Mae cefnogaeth i'r cais gan yr AS Lleol hefyd yn ofynnol.

2.0 Proses Datganiadau o Ddiddordeb

A – Argymhelliad /Argymhellion a Rheswm/ Rhesymau

Yn ystod Awst 2021 fe wnaeth y Cyngor Sir gyhoeddi galwad agored am brosiectau ar draws Ynys Môn. Derbyniwyd cyfanswm o 11 datganiad o ddiddordeb (gweler Atodiad A) ac fe'u haseswyd gan Swyddogion o fewn y Swyddogaeth Datblygiad Economaidd. O ganlyniad i'r asesiad hwn daeth yn amlwg y gellid cyflwyno cais cryf ar gyfer Caergybi.

3.0 Cais Caergybi Posibl

Cyflwynwyd cyfanswm o 5 datganiad o ddiddordeb o Gaergybi. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Môn CF
2. Yr Eglwys yng Nghymru
3. Canolfan Ucheldre
4. Amgueddfa Forwrol
5. Cyngor Sir – Adfywio Treftadaeth

Yn dilyn adolygiad, cyngor allanol arbenigol ac arweiniad a chyswllt anffurfiol â Swyddogion Llywodraeth y DU, mae yna nifer o ffactorau pam fod gan gais posibl ar gyfer 'pecyn' o brosiectau yng Nghaergybi'r cyfle gorau posibl i gael ei gymeradwyo'n llwyddiannus.

Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Mae gan Gaergybi weithgarwch sylweddol a allai ychwanegu at y raddfa a ddisgwyllir ar gyfer prosiectau'r Gronfa Codi'r Gwastad gyda chaniatâd statudol yn ei le (neu bron yn ei le), arian cyfatebol (mae angen rhwng 10-30%) a'r gallu i gyflawni o fewn y terfyn amser o fis Mawrth 2024.
2. Mae yna naratif cymhellol ar gyfer cynlluniau Caergybi ac mae sicrhau aliniad cryf gyda thema/nod y Gronfa Codi'r Gwastad cyffredin clir rhwng elfennau o'r prosiectau yn hollbwysig. Mae hyn yn hanfodol mewn Ardal Blaenoriaeth 2, fel Ynys Môn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cael nifer o brosiectau ar draws ardaloedd daearyddol amrywiol ledled yr Ynys.
3. Unwaith eto, mae tystiolaeth o gefnogaeth rhanddeiliaid (AS Lleol, y sector breifat / sefydliadau allanol) yn hollbwysig. Mae ymgysylltiad helaeth yng Nghaergybi eisoes o'r raddfa/ymrwymiad sydd ei angen ar gyfer cais argyhoeddiadol.
4. Bu gormod o gynlluniau 'adfywio' generig yn Rownd 1 (fel y byddai'n rhaid i gynllun Ynys gyfan fod), felly bydd Rownd 2 yn blaenoriaethu prosiectau sy'n canolbwyntio ar gynlluniau diwylliant a threftadaeth y gall Caergybi eu cyflawni.
5. Mae cael naratif clir a chydlynol yn hollbwysig o fewn cais a dylai ddiffinio'n glir sut mae'r holl gydrannau yn cyd-fynd â'i gilydd a sut y byddant yn ffurfio rhan o broses hirach i godi'r gwastad yn yr ardal.
6. Cafodd cynigion oedd yn canolbwyntio ar deimlad o le sgôr uchel ac maent yn parhau i fod yn rhan amlwg o uchelgeisiau Gweinidogion.
7. Mae unrhyw amheuan ynghylch y gallu i gyflawni a risg yn cael eu sgorio'n llym – a bydd ceisiadau o'r fath yn methu.
8. Rhaid i gost/budd a gwerth am arian gael allbynnau clir, integredig, diffiniedig yn seiliedig ar un nod.
9. Mae'r AS Lleol wedi cymeradwyo a chefnogi'r cynnig Caergybi.

A – Argymhelliad /Argymhellion a Rheswm/ Rhesymau

4.0 Safle Presennol

Yn dilyn cymeradwyaeth gan yr Uwch Dim Arweinyddiaeth, mae Swyddogion - gyda chefnogaeth ymgynghorwyr allanol - wedi bod yn symud ymlaen ac yn datblygu cais posib yn canolbwyntio ar Gaergybi. Mae hyn wedi cynnwys sicrhau rhagor o wybodaeth gan bob un o'r 5 Datganiad o Ddiddordeb a chael trafodaethau manwl gyda nhw i asesu aeddfedrwydd, hyfywedd ac aliniad pob prosiect ag egwyddorion a gofynion Cronfa Codi'r Gwastad.

Mae'r broses o ddatblygu a chwblhau'r cais posibl ar y gweill ac ni fydd yn cael ei gwblhau tan fis Mawrth. Felly nid yw'n bosibl rhoi manylion i'r Pwyllgor Gwaith ar ei gwmpas tebygol, ei werth, ei risgiau ac unrhyw rwymedigaethau posibl.

Fodd bynnag, mae angen cefnogaeth y Pwyllgor Gwaith o hyd fel y gall Swyddogion barhau i symud ymlaen a datblygu a chyflwyno cais posibl.

Gan fod ansicrwydd o hyd ynghylch pryd y bydd y ffenestr ar gyfer cyflwyno ceisiadau yn cael ei hagor yn ffurfiol gan Lywodraeth y DU, mae tebygolrwydd uchel y gallai hyn felly ddod o fewn y cyfnod cyn/ar ôl yr etholiad.

Gallai fod yn ofynnol i'r cais terfynol gael ei gymeradwyo a'i gyflwyno i Lywodraeth y DU gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, yn amodol ar yr holl weithdrefnau cymeradwyo angenrheidiol.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Nad yw'r Cyngor Sir yn cyflwyno cais ffurfiol i Gronfa Codi'r Gwastad- mae Swyddogion yn argymhell nad yw hyn yn opsiwn.

Bod y Cyngor Sir yn cyflwyno cais i'r Gronfa Codi'r Gwastad ar sail yr 'Ynys gyfan'. Ar sail trafodaethau gyda Swyddogion Llywodraeth y DU, ni fyddai'r opsiwn hwn yn llwyddiannus am nad oes yr un prosiect arall o'r maint hwn, gydag arian cyfatebol a chaniatâd yn ei le a bod modd ei gyflawni o fewn yr amserlen 18 mis.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae sicrhau cymeradwyaeth a chefnogaeth angenrheidiol gan y Pwyllgor Gwaith yn bwysig ar sail gwerth posibl unrhyw gais i'r Gronfa Codi'r Gwastad.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydy.

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydy. Mae cyllid datblygu o £125,000 i gefnogi unrhyw gais posibl wedi'i dderbyn gan Lywodraeth y DU.

Dd – Aseu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):

1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Mae ardaloedd o Gaergybi yn dioddef o amddifadedd ac ar lefel ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Gall sicrhau Cyllid Codi'r Gwastad ddarparu gwelliannau a buddion gweladwy i'r Dref gan greu swyddi a chyfleoedd.
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Mae ganddo'r potensial i atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol trwy ysgogi twf economaidd a ffyniant yng Nghaergybi.
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Do – gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth y DU a sefydliadau allanol i'r Cyngor Sir. Mae'r rhain yn cynnwys CF Môn; Eglwys Cymru; yr Amgueddfa Forwrol; Canolfan Ucheldre.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Do– mi wnaethom gyhoeddi 'galwad am brosiectau' ym mis Awst 2021 ac fe dderbyniwyd nifer o Ddatganiadau o Ddiddordeb gan bartion allanol yng Nghaergybi.
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effeithiau cadarnhaol posibl ar gyfer yr holl ddinasyddion drwy greu swyddi a chyfleoedd.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Rydym yn rhagweld fod gan hyn y potensial i gael effaith gadarnhaol ar yr holl ddinasyddion yn enwedig o ystyried bod Caergybi yn dioddef o amddifadedd a bod nifer o'i thrigolion dan anfantais economaidd-gymdeithasol.
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd unrhyw gais llwyddiannus posibl yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin yn union yr un modd â'r Saesneg.

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Cefnogol – sylwadau wedi'u derbyn a diweddarwyd yr adroddiad yn unol â hynny.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Cefnogol – eglurhad ynghylch y cwestiynau a godwyd: gan mai cynllun Llywodraeth y DU yw'r Gronfa Codi'r Gwastad, nid oes rôl ffurfiol i Lywodraeth Cymru a/neu'r Aelod Senedd.
4	Adnoddau Dynol (AD)	n/a
5	Eiddo	n/a
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	n/a
7	Caffael	n/a
8	Sgriwtini	n/a
9	Aelodau Lleol	n/a

F - Atodiadau:

--

Ff - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

--